Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru

Mai 2022



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- gwasanaethau gyrfaoedd
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Prif ganfyddiadau** | **9** |
| **Argymhellion** | **13** |
| **Deilliannau** | **14** |
| Sesiynau arweiniad gyrfaoedd mewn ysgolion uwchradd | 14 |
| Sesiynau arweiniad gyrfaoedd mewn unedau cyfeirio disgyblion, darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion arbennig | 16 |
| **Darpariaeth** | **17** |
| Paratoi ar gyfer sesiynau cyfweliad arweiniad gyrfaoedd | 17 |
| Sesiynau cyfweliad arweiniad gyrfaoedd | 17 |
| Cynghorwyr arbenigol | 19 |
| Anghenion dysgu ychwanegol | 20 |
| Strategaethau digidol | 20 |
| Strategaeth ar gyfer hyrwyddo’r Gymraeg | 21 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **22** |
| Rheolaeth weithredol gwaith cynghorwyr | 22 |
| Cytundebau partneriaeth | 23 |
| Datblygiad proffesiynol ar gyfer staff | 23 |
| Effaith COVID-19 | 23 |
| Hunanwerthuso ar gyfer gwella | 24 |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **26** |
| **Geirfa** | **27** |
| **Cyfeiriadau** | **28** |

## Crynodeb gweithredol

Yn nhymor yr hydref 2021-22, ymwelodd arolygwyr â sampl o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ledled Cymru i arsylwi sesiynau arweiniad un i un rhwng cynghorwyr Gyrfa Cymru a phobl ifanc. Siaradom â phobl ifanc oedd yn cael arweiniad, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd ac arweinwyr a rheolwyr Gyrfa Cymru. Edrychom hefyd ar ystod eang o ddogfennau'n gysylltiedig â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru.

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n gymwys i gael sesiwn arweiniad yn yr ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw yn gwneud cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn wrth greu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Maent yn trafod eu syniadau ac yn ymateb yn dda i gwestiynau a heriau a osodir pan allai cynllun ymddangos yn beryglus. Pan fydd pobl ifanc yn dechrau eu sesiwn arweiniad gyda chynlluniau a syniadau afrealistig, mae hyn fel arfer yn deillio o ddiffyg cymorth gan eu hysgol neu leoliad. Ar ôl iddynt gael arweiniad, mae'r bobl ifanc hyn yn gwneud cynnydd da iawn tuag at ddeall y llwybrau ôl-16 sydd ar gael iddynt.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o gynghorwyr gyrfaoedd wedi paratoi'n dda ar gyfer eu sesiynau arweiniad, yn enwedig ble mae ganddynt berthnasoedd sefydledig â darparwyr, ac maent yn rhannu gwybodaeth allweddol. Mae cynghorwyr yn effeithiol ac yn darparu cyngor clir a phriodol ar gyfer y camau nesaf i bobl ifanc eu cymryd. Mae cynghorwyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arbenigol yn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY wrth iddynt gynllunio pontio, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto sut bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn o dan y system ADY ddiwygiedig. Er bod cynghorwyr gyrfaoedd yn deall protocolau ysgolion ar gyfer diogelu ac yn gallu enwi unigolyn diogelu dynodedig eu hysgol, mae lleiafrif ohonynt yn llai clir ynglŷn â phrotocolau'r cwmni a'r unigolyn diogelu dynodedig.

Nod gweledigaeth Dyfodol Disglair Gyrfa Cymru (Gyrfa Cymru, 2021) yw targedu'r bobl ifanc sydd fwyaf angen cyngor ac arweiniad annibynnol i wneud dewisiadau gwybodus. Fodd bynnag, canfuom nad yw hi bob amser yn glir sut mae arweinwyr a rheolwyr yn bwriadu mesur effaith ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau a'u strategaeth gyffredinol. Er enghraifft, nid ydynt yn dadansoddi cyfran y bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'w hopsiwn dilyniant ôl-16 cyn cwblhau eu nod, ac nid oes strategaeth glir ychwaith i wella lefelau ymgysylltiad pobl ifanc. At ei gilydd, nid yw prosesau'r cwmni ar gyfer gwerthuso effaith ei wasanaethau wedi eu datblygu'n ddigonol, gyda gormod o ffocws ar foddhad cleientiaid a dim dadansoddi pa effaith a gaiff y gwasanaeth ar wella cynllunio'r ffordd y mae pobl ifanc yn cynllunio gyrfa ac yn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn rhwystro gallu'r cwmni i seilio cynllunio gwelliant ar ddadansoddiad dibynadwy neu drylwyr o gryfderau ei wasanaeth a'r meysydd i'w gwella.

Rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion canlynol yn cynorthwyo Gyrfa Cymru i wella ei waith gyda phobl ifanc ymhellach:

- datblygu systemau a meini prawf priodol i werthuso'r effaith a gaiff gwasanaethau ar effeithiolrwydd a gwydnwch cynlluniau a phenderfyniadau pobl ifanc o ran gyrfa
- sicrhau bod gwerthuso effeithiol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gywir, gynhwysfawr a pherthnasol, yn llywio cynllunio strategol a gwella ansawdd
- cryfhau cysylltiadau â chwmnïau gyrfaoedd eraill i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arfer dda
- parhau i sicrhau bod dadansoddi o weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael ei adrodd yn ôl i ysgolion unigol i gryfhau addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith
- sicrhau bod pob un o'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth
- sicrhau bod pob un o'r staff yn deall trefniadau a gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer diogelu pobl ifanc

# Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2021-2022. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith Gyrfa Cymru o ran y cyngor a'r arweiniad diduedd y mae'n ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion arbennig. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag ysgolion a lleoliadau a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2021, arsylwadau o sesiynau arweiniad un i un gyda chynghorwyr gyrfaoedd, a chraffu ar ddogfennau a deunydd a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Hefyd, buom yn cyfweld â phobl ifanc yn cael arweiniad, athrawon mewn ysgolion a lleoliadau, cynghorwyr gyrfaoedd ac amrywiaeth o reolwyr ac arweinwyr ar draws strwythur cwmni Gyrfa Cymru. Ni ellid cynnal ychydig o ymweliadau a oedd wedi eu trefnu oherwydd lledaeniad cyflym amrywiolyn Omicron yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

Yr adroddiad thematig hwn yw'r cyntaf o gyfres o adolygiadau thematig sydd â ffocws ar waith Gyrfa Cymru o ran cynorthwyo cleientiaid i wneud dewisiadau gwybodus tuag at eu llwybrau gyrfa. Mae'r adolygiad thematig hwn yn canolbwyntio ar y cyngor a'r arweiniad annibynnol y mae Gyrfa Cymru yn ei gyflwyno trwy ei gynghorwyr gyrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed. Nid oedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys y gwaith ehangach y mae Gyrfa Cymru yn ei ddarparu ar gyfer y grŵp oedran hwn, fel gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr, ymgysylltu â rhieni, cymorth ar gyfer y rhai sy'n dechrau yn y farchnad lafur neu wasanaethau dysgu proffesiynol a hyfforddi ar gyfer ysgolion. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn berthnasol i bob sector wrth i bolisi addysgol yng Nghymru symud at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o 2022 ac elfen Gyrfaoedd a Phrofiadau yn Gysylltiedig â Gwaith ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 mlwydd oed, a fydd yn disodli'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ar gyfer dysgwyr rhwng 11 ac 19 mlwydd oed.

## Cefndir

Rhoddodd Deddf Addysgu ac Addysg Uwch (1998) bwerau i Lywodraeth Cymru ofyn i Estyn arolygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru ar ei rhan. Rhwng 2003 a 2009, arolygom bob un o'r chwe chwmni gyrfaoedd a oedd ar waith yng Nghymru ar y pryd.

Ar 1 Ebrill 2013, daeth chwech o gwmnïau gyrfaoedd unigol ledled Cymru at ei gilydd o dan un brand cyffredin, sef Gyrfa Cymru. Mae Careers Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales, yn is-gorff a berchnogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

Mae Gyrfa Cymru dan gontract gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor, arweiniad a gwasanaethau eraill i'r canlynol:

- y rhai mewn addysg amser llawn mewn ysgolion a cholegau addysg bellach
- y rhai mewn addysg ran-amser
- unrhyw bobl o dan 21 oed sydd wedi gadael addysg (heblaw addysg uwch) neu hyfforddiant amser llawn, hyd at ddwy flynedd yn gynharach
- y rhai ag anableddau (gan gynnwys y rhai ag anawsterau dysgu), hyd nes eu bod wedi ymsefydlu o ran eu bwriadau gyrfa
- sefydliadau addysg
- cyflogwyr
- darparwyr hyfforddiant
- rhieni a gofalwyr

Ei ddiben yw darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad dwyieithog, pob oed, annibynnol a diduedd ar yrfaoedd, sy'n cynnwys disgyblion o oedran ysgol statudol, 14-16 mlwydd, sef ffocws yr adolygiad hwn.

Mae gan Gyrfa Cymru frand ar wahân hefyd, sef Cymru'n Gweithio, sy'n cyflwyno cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ac yn datblygu cyflogadwyedd oedolion a phobl ifanc dros 16 oed sydd wedi gadael yr ysgol.

Mae Gyrfa Cymru yn cyflogi dros 600 o staff. Caiff ei arwain gan Brif Weithredwr a gefnogir gan uwch dîm arweinyddiaeth, ac mae pob un o'r deg aelod yn goruchwylio agwedd benodol ar y sefydliad. Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr Cyflawni a Datblygu, Pennaeth Gwasanaethau i Bobl Ifanc a Phennaeth Ansawdd a Chynllunio.

Mae strwythur cwmnïau Gyrfa Cymru yn strwythur cenedlaethol, ond mae'r gwasanaethau i bobl ifanc wedi'u rhannu'n bedwar rhanbarth, ac fe gaiff y rhain eu rheoli gan 11 rheolwr cyflawni gweithredol sy'n goruchwylio'r gwaith ym mhob rhanbarth. Mae rheolwyr tîm yn cefnogi gwaith y rheolwyr cyflawni gweithredol ledled Cymru. Mae 15 o reolwyr tîm sy'n rheoli cynghorwyr gyrfaoedd yn uniongyrchol a'u beichiau achosion o ysgolion, lleoliadau a chleientiaid.

Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn gweithio gyda phob un o'u hysgolion ac UCDau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd i greu'r cytundeb partneriaeth ar gyfer y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r ddogfen ddefnyddiol hon yn amlinellu anghenion yr ysgol o ran cymorth gan Gyrfa Cymru a'r gweithgareddau i'w cynnal yn ystod pob tymor, yn ogystal â darparu graddfeydd amser ar gyfer pob gweithgaredd. Un o'r gweithgareddau hyn yw'r holiadur sgrinio 'Gwirio Gyrfa', y mae pob un o'r bobl ifanc yn ei lenwi ar gyfer Gyrfa Cymru yn ystod Blwyddyn 10. Yn yr holiadur hwn, mae pobl ifanc yn nodi pa mor ddatblygedig yw eu syniadau am yrfaoedd. Mae'r cytundeb partneriaeth yn nodi'n glir aelodau staff allweddol ac unigolion cyswllt o'r ysgol a Gyrfa Cymru, a'u manylion cyswllt.

Rôl cynghorwyr gyrfaoedd Gyrfa Cymru sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol yw helpu cleientiaid i reoli eu dewisiadau gyrfa gydol oes yn effeithiol. O ran eu gwaith gyda dysgwyr rhwng 14 ac 16 mlwydd oed, maent yn gweithio gydag ysgolion a chyflogwyr i helpu disgyblion i ddeall y byd gwaith. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau, er enghraifft cefnogi gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr fel ffeiriau gyrfaoedd traddodiadol a gweminarau, yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc. Mewn ysgolion, mae cynghorwyr yn cynnal cyfarfodydd ymgynghori ac yn cefnogi cyflwyno darpariaeth y cwricwlwm statudol sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd, sef y fframwaith 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith' (Llywodraeth Cymru, 2008) ar hyn o bryd. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddisodli'n gynyddol o 2022 gan thema drawsbynciol 'Gyrfaoedd a Phrofiadau yn Gysylltiedig â Gwaith' fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae angen i waith Gyrfa Cymru, ysgolion, cyflogwyr a darparwyr eraill addysg a hyfforddiant ategu ei gilydd i sicrhau bod dysgwyr yn cael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer eu cynnydd tuag at gyflogaeth. Mae eu rolau priodol wedi'u crynhoi yn Ffigur 1. Edrychodd yr adroddiad hwn yn benodol ar agweddau cynghorydd gyrfaoedd un i un ar waith Gyrfa Cymru, ond mae hefyd yn ystyried sut mae'r agwedd hon ar ddarpariaeth yn rhyngweithio â gwaith ysgolion a lleoliadau eraill.

### Ffigur 1: Rolau Gyrfa Cymru, ysgolion, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant eraill o ran cynorthwyo dysgwyr â gwneud penderfyniadau gwybodus a chynllunio gyrfa




Yn ei strategaeth pum mlynedd ddiweddaraf, 'Dyfodol Disglair', mae Gyrfa Cymru (2021a, tud.14) yn nodi mai un o'i nodau yw 'cefnogi pobl yng Nghymru a gwneud yn siŵr fod pawb yn cael cyfle am ddyfodol disglair'. Ei nod yw cyflawni hyn trwy ddarparu gwasanaethau sy'n:

- cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bonito'n gadarnhaol i addysg, gwaith neu hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol
- cefnogi cwsmeriaid y mae angen lefelau uwch o gefnogaeth arnynt i bonito'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol
- codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, gwaith a hyfforddiant a chyfleoedd eraill i wneud cynnydd
- gwella mynediad at fanteision arweiniad gyrfaoedd a chymorth anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid
- targedu cymorth i'r bobl ifanc hynny sydd ei angen fwyaf.

Mae Cynllun Gweithredol Gyrfa Cymru ar gyfer 2021-2022 yn amlinellu ei gynnig ar gyfer pobl ifanc fel a ganlyn:

'gwasanaeth personol wedi'i ddarparu mewn cydweithrediad ag ysgolion, colegau, darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a phartneriaid a dylanwadwyr eraill, yn cynnwys rhieni. Bydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei integreiddio, yn ataliol ac yn canolbwyntio ar gydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a thymor hir cwsmeriaid. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar:

- ehangu gorwelion;
- codi eu hymwybyddiaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol yn y farchnad lafur fodern;
- datblygu'r sgiliau allweddol ar gyfer cynllunio gyrfa, yn y tymor byr a'r tymor hir;
- cymorth ar bwyntiau pontio allweddol i bobl ifanc sydd ei angen.' (Gyrfa Cymru, 2021b, tud.3)

I weithio tuag at hyn, mae Gyrfa Cymru yn cynnig model gwahaniaethol o arweiniad gyrfaoedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 mlwydd oed, sef:

**Ffigur 2: Lefelau cymorth a ddarperir gan Gyrfa Cymru (tabl wedi'i ddarparu gan Gyrfa Cymru)**

| Lefel | Cymorth | Categorïau'r dysgwyr a gynorthwyir | Mathau o gymorth |
|---|---|---|---|
| 1 | Cymorth Cyffredinol | ✓ Grŵp Blwyddyn Gyfan | ○ Sesiynau grŵp<br>○ Cadw mewn cysylltiad yn ddigidol a diweddariadau gwybodaeth.<br>○ Nosweithiau rhieni |
| 2 | Cymorth Gwirio Gyrfa (60% o'r garfan sy'n weddill ar ôl manteisio ar Gymorth Targedig) | ✓ Dim ffocws<br>✓ Yn chwilio am brentisiaeth<br>✓ Yn ddawnus ond yn tangyflawni<br>✓ Newydd-ddyfodiaid yn y farchnad lafur<br>✓ Diffyg hyder neu gymhelliant i wneud i bethau ddigwydd.<br>✓ Afrealistig | ○ Cyfweliad arweiniad a hyfforddi (a'r uchod) |
| 3 | Cymorth Targedig (30% o'r garfan) | ✓ Dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd)<br>✓ Plant sy'n derbyn gofal<br>✓ Mynychwyr gwael<br>✓ Gofalwyr ifanc<br>✓ Addysg heblaw yn yr ysgol (UCD a'r cwricwlwm amgen)<br>✓ Y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o fod yn rhai NACH<br>✓ Dysgwyr Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | ○ Cymorth arweiniad a hyfforddi<br>○ Asesu anghenion arweiniad<br>○ Cymorth uchel, canolig neu isel – cyfwerth â mwy o amser. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cymorth ADY | ○ Dysgwyr ar ddatganiad neu gyfwerth â datganiad | ○ Arweiniad a hyfforddi<br>○ Gwaith grŵp<br>○ Adolygiadau pontio<br>○ Cynllun Dysgu a Sgiliau<br>○ Cais am gyllid coleg arbenigol<br>○ Cyswllt â rhieni a nosweithiau rhieni |

Mae’r adroddiad hwn yn canolbwynotio ar gyflwyno’r sesiynau un-i-un rhwng cynghorwyr a’u cleientiaid targedig o ran cymorth lefel dau a thri, a’u heffaith, a chyfarfodydd gyda darparwyr i drafod cymorth lefel pedwar.

# Prif ganfyddiadau

1 Mae Gyrfa Cymru yn darparu ystod haenog briodol o gymorth ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 mlwydd oed, gyda'r lefel uchaf o ryngweithio a chymorth ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn defnyddio gwybodaeth o'r arolwg Gwirio Gyrfa i helpu targedu sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd unigol ble mae eu hangen.

## Deilliannau

2 Mae mwyafrif y bobl ifanc yn cymryd rhan yn dda yn eu sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd. Yn y sesiynau hyn, mae bron pob un o'r bobl ifanc yn datblygu perthynas weithio effeithiol gyda'u cynghorydd gyrfaoedd ac yn cyfrannu'n briodol at drafodaethau. Maent yn ymateb i gwestiynau yn llawn, ac yn aml yn gwella eu gwybodaeth a'u mewnwelediad wrth i'r sesiwn fynd rhagddi. Teimlant fod cynghorwyr gyrfaoedd yn gwrando ar eu syniadau a bod cynghorwyr yn awyddus i'w helpu a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau. Roeddent yn falch o gael eu herio gan y cynghorwyr i ystyried eu cynlluniau. Bu'r sesiynau yn fuddiol, yn eu barn nhw.

3 Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn gweithio gyda'u cynghorydd gyrfaoedd i ffurfio cynllun gweithredu clir ar gyfer cyflawni eu nodau. Mae llawer o'r cynlluniau hyn yn hyblyg, gan alluogi pobl ifanc i osgoi gwrthod opsiynau cyn bod angen iddynt. Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn cytuno i gwblhau'r camau gweithredu hyn o fewn y graddfeydd amser a osodwyd.

4 Mae pobl ifanc mewn UCDau, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn gwneud cynnydd yn ystod cyfweliadau sy'n debyg i gynnydd eu cyfoedion mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd. Yn bwysicaf oll, maent yn datblygu perthynas â'u cynghorydd sy'n gallu dod yn sylfaen fuddiol ar gyfer sesiynau yn y dyfodol.

5 Mae bron pob un o'r bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau arweiniad gyrfaoedd wedi ffurfio nodau yn rhannol, ac mae ganddynt eisoes syniadau i'w harchwilio. Caiff llawer ohonynt fewnwelediad boddhaol i'w cryfderau a'u gwendidau, yn cynnwys eu graddau disgwyliedig mewn TGAU. Mae gan y bobl ifanc hyn syniad bras ynglŷn â'u nod gyrfa, ond cyn y cyfweliad, nid ydynt yn ddigon ymwybodol o ystod yr opsiynau dilyniant sydd ar gael i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu llwybr dilyniant gorau. Yn aml, caiff hyn ei gymhlethu gan eu diffyg dealltwriaeth o'r farchnad lafur neu syniadau sy'n afrealistig. Mewn ysgolion nad ydynt wedi cynorthwyo pobl ifanc i archwilio eu hopsiynau yn fanwl neu ddatblygu eu gwybodaeth am swyddi neu lwybrau gyrfa, rhaid i gynghorwyr dreulio gormod o amser yn ystod y cyfweliad yn rhoi gwybodaeth i bobl ifanc, yn hytrach na'u helpu i werthuso eu syniadau. Yn gyffredinol, mae gan bobl ifanc mewn UCDau, ysgolion arbennig a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol syniadau llai ffurfiedig am eu nod gyrfa.

## Darpariaeth

6 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynghorwyr gyrfaoedd wedi paratoi'n dda ar gyfer eu sesiynau arweiniad gyda phobl ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gan gynghorwyr berthnasoedd sefydledig â'r ysgol ac wedi cytuno ar brotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth. Yn yr achosion hyn, mae gwybodaeth fanwl a chywir yr ysgol yn helpu cynghorwyr i gynllunio eu harweiniad yn ofalus i ddiwallu anghenion eu pobl ifanc.

7 Mewn ychydig o achosion, pan nad yw'r ysgol yn rhoi digon o wybodaeth i'r cynghorydd am y person ifanc, treulir gormod o amser yn dod o hyd i wybodaeth gefndir am bobl ifanc ar ddechrau'r cyfweliad. Mae hyn yn lleihau'r amser sydd gan y cynghorydd i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu eu cynlluniau gyrfa.

8 Yn y rhan fwyaf o gyfweliadau, mae cynghorwyr yn defnyddio ystod o dechnegau effeithiol i helpu pobl ifanc i 'adrodd eu stori' am eu hamgylchiadau, blaenoriaethau a syniadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn llawn yn y cyfweliad. Defnyddiant gyfuniad da o dechnegau holi i ddatblygu dealltwriaeth o gam datblygu'r cleient. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cynghorwyr yn defnyddio cwestiynau arweiniol, sy'n methu sicrhau bod safbwynt y cleient yn cael ei archwilio'n llawn. Mae llawer o gynghorwyr yn archwilio syniadau eu cleient yn helaeth, gan alluogi pobl ifanc i wella eu dealltwriaeth o'r hyn y gallai eu dewisiadau ei gynnwys.

9 Bron ym mhob sesiwn, mae cynghorwyr yn rhoi cyngor clir a phriodol am ba waith ymchwil pellach y mae angen i bobl ifanc ei wneud. Mae llawer o gynghorwyr yn trafod cynllunio wrth gefn priodol gyda phobl ifanc. Pan nad oeddent wedi ystyried cynllun wrth gefn, mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn eu hannog i wneud hynny er mwyn gwella gwydnwch eu cynllunio. Er enghraifft, gellir helpu person ifanc i nodi ail opsiwn os nad yw ei brif gynllun yn ddichonadwy neu mae'n fentrus. Mae bron pob cynghorydd yn cytuno ar gynllun gweithredu priodol gyda'r cleient ac yn nodi graddfeydd amser priodol iddynt weithredu. Mae llawer o gynghorwyr yn trefnu cyfweliadau dilynol i adolygu cynnydd yn unol â chamau gweithredu cynlluniedig.

10 Nid yw cyfraniad Gyrfa Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn glir. Mae Dyfodol Disglair (Gyrfa Cymru, 2021a) yn nodi y bydd y cwmni yn gwneud hyn trwy sicrhau bod cleientiaid yn deall gwerth medrau Cymraeg yn yr economi. Mewn ychydig o achosion, nid yw cynghorwyr yn ymwybodol bod y cleient yn siarad Cymraeg, ac felly nid ydynt yn ei annog i ystyried effaith bosibl hyn ar ei gynlluniau.

11 Ar hyn o bryd, mae cynghorwyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arbenigol yn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY i gynllunio eu cyfnod pontio, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a mecanweithiau ariannu ategol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto sut bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn o dan y system ADY ddiwygiedig.

12 At ei gilydd, mae trefniadau priodol ar waith i drosglwyddo pobl ifanc sy'n gadael addysg statudol yn 16 mlwydd oed i aelod o dîm Cymru'n Gweithio i barhau â chymorth i chwilio am gyfleoedd priodol. Fodd bynnag, i bobl ifanc ag anghenion

mwy cymhleth, fel y bobl ifanc hynny sy'n mynychu UCDau, gall hyn olygu torri'r berthynas â'r cynghorwyr gyrfaoedd y maent wedi dod i ymddiried ynddynt.

13 Mae presenoldeb digidol Gyrfa Cymru wedi gwella ei berthynas â rhieni, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Mae tîm digidol Gyrfa Cymru wedi datblygu strategaeth dra ystyriol i sicrhau bod y deunyddiau y maent yn eu creu yn cynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Yn ystod y pandemig, galluogodd y tîm digidol i Gyrfa Cymru barhau i ddarparu gwasanaeth yn ddigidol i bobl ifanc pan nad oedd modd cynnal sesiynau wyneb yn wyneb. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dywedodd Gyrfa Cymru y bu gostyngiad yn nifer y defnyddwyr a oedd yn mynd at ei wefan, ac mae cyfran y bobl ifanc dargedig na chawsant y cymorth priodol yn ystod y pandemig yn aneglur.

14 Mae pob cynghorydd gyrfaoedd yn deall protocolau ysgolion ar gyfer diogelu, a gallant enwi person diogelu dynodedig eu hysgol. Fodd bynnag, mwyafrif o gynghorwyr yn unig sy'n gallu rhoi esboniad clir o brotocolau Gyrfa Cymru ac enwi person diogelu dynodedig y cwmni.

### Arweinyddiaeth

15 Mae Dyfodol Disglair (Gyrfa Cymru, 2021a) yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer gwaith Gyrfa Cymru ac yn nodi ei nod i dargedu'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf angen cyngor ac arweiniad annibynnol, a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau llwyddiannus a gwybodus a chynnal eu cynnydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae Dyfodol Disglair (Gyrfa Cymru, 2021a) yn nodi'n fuddiol effeithiau uniongyrchol, canolraddol a hirdymor arweiniad ar yrfaoedd, a hyfforddi. Nid yw'n glir sut mae arweinwyr a rheolwyr yn bwriadu mesur yr effeithiau hyn i'w helpu i ddeall effeithiolrwydd eu gwasanaethau a'u strategaeth gyffredinol.

16 Mae Gyrfa Cymru yn casglu data defnyddiol ar gyrchfannau pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhanddeiliaid. Mae'n gweithio'n dda mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o 'beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant' (NACH) yn cael cynnig cymorth teilwredig i ddiwallu eu hanghenion. Er bod arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data ar gyrchfannau, nid ydynt yn gwneud hynny'n ddigon manwl na thrylwyr. Yn benodol, nid ydynt yn monitro nac yn dadansoddi cyfran y bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'w hopsiwn dilyniant ôl-16 cyn cwblhau eu nod. Nid oes strategaeth glir i wella lefelau ymgysylltu pobl ifanc neu darged i anelu ato. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd dadansoddi effaith y sesiwn arweiniad yng nghyfnod allweddol 4 neu gymorth targedig parhaus.

17 At ei gilydd, nid yw prosesau'r cwmni ar gyfer gwerthuso effaith ei wasanaethau wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae gwerthusiad y cwmni o'i wasanaeth yn dibynnu gormod ar fesurau boddhad cleientiaid, ac nid yw'n dadansoddi pa effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar wella ansawdd dull y cleient o gynllunio neu wneud penderfyniadau. Mae hyn yn amharu ar allu'r cwmni i seilio cynllunio gwelliant ar ddadansoddiad dibynadwy neu drylwyr o'i gryfderau gwasanaeth a meysydd i'w gwella.

18 Mae’r cwmni wedi datblygu pwyslais cynyddol ar arferion hunanfyfyriol. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn elwa ar gymorth rhwng cyfoedion trwy gyfarfod yn rheolaidd i drafod testunau allweddol ac archwilio atebion. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn adolygu cynnydd ac ansawdd eu gwaith gyda’u rheolwyr yn rheolaidd. Mae rheolwyr tîm yn cynnal arsylwadau blynyddol o sesiynau arweiniad hefyd i sicrhau ansawdd gwasanaethau arweiniad. Nid yw cynghorwyr a’u rheolwyr yn canolbwyntio digon ar effaith cyngor ac arweiniad gyrfaoedd ar gynnydd cynllunio gyrfaoedd gan bobl ifanc.

19 Mae Gyrfa Cymru wedi ffurfio partneriaethau cryf gyda llawer o’r ysgolion y mae’n gweithio gyda nhw, ond nid yw’n adrodd yn ôl ar wybodaeth yn systematig o sesiynau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i helpu gwella ansawdd addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith a gyflwynir gan ysgolion. Ar hyn o bryd, nid yw gwaith ysgolion a Gyrfa Cymru yn cyd-fynd yn ddigon agos i gael yr effaith fwyaf posibl ar gyfer pobl ifanc.

20 Mae bron pob un o’r cynghorwyr yn cyfathrebu’n rheolaidd â’u rheolwyr ac yn mynychu cyfarfodydd baich achos tymhorol i’w helpu i gynllunio eu gwaith. Mae’r cyfarfodydd hyn yn helpu rheolwyr i nodi anghenion hyfforddi, ar lefel unigol neu lefel tîm, fel ei gilydd.

21 Gwnaed cysylltiadau cychwynnol gyda chwmni gyrfaoedd arall, ond at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddathlu a rhannu arfer effeithiol ar draws y sefydliad, a dysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

## Argymhellion

**Dylai Gyrfa Cymru:**

A1 Ddatblygu systemau a meini prawf priodol i werthuso'r effaith a gaiff gwasanaethau ar effeithiolrwydd a gwydnwch pobl ifanc wrth iddynt gynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau

A2 Sicrhau bod gwerthuso effeithiol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gywir, gynhwysfawr a pherthnasol, yn llywio cynllunio strategol a gwella ansawdd

A3 Cryfhau cysylltiadau gyda chwmnïau gyrfaoedd eraill i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arfer dda

A4 Parhau i sicrhau bod dadansoddi o weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael ei fwydo'n ôl i ysgolion unigol i gryfhau addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith

A5 Sicrhau bod pob un o'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth

A6 Sicrhau bod pob un o'r staff yn deall trefniadau a gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer diogelu pobl ifanc

# Deilliannau

## Sesiynau arweiniad gyrfaoedd

Ar ddechrau sesiwn arweiniad gyrfaoedd, mae bron pob un o'r bobl ifanc yn mynegi eu bod yn deall cyfrinachedd ac yn gallu esbonio beth mae hyn yn ei olygu, yn aml ar ôl iddynt gael cymorth gan y cynghorydd gyrfaoedd. Hefyd, mae pobl ifanc yn deall beth yw diogelu ac y gallai fod yna adegau pan allai fod angen i'r cynghorydd dorri rheolau cyfrinachedd er mwyn eu cadw'n ddiogel.

Mae bron yr holl bobl ifanc yn meddu ar ddealltwriaeth eang o'r hyn y maent yn gobeithio'i gyflawni o sesiynau gyda'u cynghorydd, er bod eglurder eu nodau yn amrywio'n sylweddol. Mae mwyafrif y bobl ifanc hyn eisoes wedi dechrau datblygu eu syniadau eu hunain am lwybr gyrfaoedd posibl yn seiliedig ar eu gwybodaeth am gyfleoedd y farchnad lafur neu drwy eu profiadau eu hunain. Yn aml, mae'r syniadau cychwynnol hyn yn deillio o drafodaethau cynharach yn yr ysgol neu'u profiadau eu hunain o fyd gwaith trwy ddiddordebau personol neu gysylltiadau teuluol. Nid yw lleiafrif o bobl ifanc wedi gwneud digon o ymchwil i ymestyn eu gwybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth neu lwybrau gyrfa i wneud digon o gynnydd mewn datblygu eu cynlluniau. Bron ym mhob achos, caiff y sesiwn arweiniad ei chynllunio o amgylch ymatebion y person ifanc yn ei holiadur sgrinio 'Gwirio Gyrfa', y mae disgyblion yn ei lenwi ar gyfer Gyrfa Cymru yn ystod Blwyddyn 10. Adeg eu sesiwn arweiniad, mae pobl ifanc yn galw i gof y wybodaeth a roesant, ac yn esbonio eu meddyliau y tu ôl i'w dewisiadau gyrfa cychwynnol. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn defnyddio'r rhain i nodi cleientiaid sy'n ansicr ynglŷn â'u camau nesaf neu eisiau cyfeirio eu hunain am gymorth i gynllunio ar gyfer camu ymlaen yn eu gyrfa.

Mae ychydig o gleientiaid wedi paratoi'n wael ar gyfer eu sesiwn arweiniad, yn aml am nad yw staff yr ysgol wedi rhoi llawer o rybudd iddynt am eu cyfweliad. Gallai hyn ddigwydd oherwydd bod ysgolion yn rhoi apwyntiadau i gleientiaid eraill yn lle pobl ifanc sy'n absennol neu'n methu cael eu rhyddhau o wers. Er mis Mawrth 2020, mae hyn yn aml wedi digwydd o ganlyniad i bandemig COVID-19 ble mae absenoldebau pobl ifanc wedi bod yn uwch na'r arfer. Caiff hyn effaith andwyol ar eu gallu i fynegi eu meddyliau am unrhyw nodau cychwynnol a allai fod ganddynt neu esbonio pam maent yn ystyried yr opsiynau maen nhw eisiau siarad amdanynt.

Caiff llawer o gleientiaid fewnwelediad boddhaol i'w cryfderau a'u gwendidau, a gallant eu trafod yn briodol â'u cynghorydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn glir am eu graddau disgwyliedig mewn arholiadau TGAU, sy'n cyd-fynd yn fras â barn yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhennir y wybodaeth hon gyda'r cynghorydd gyrfaoedd cyn y sesiwn arweiniad. Mae hyn yn rhoi amser yn ystod y cyfweliad i'r cleient archwilio'i syniadau a datblygu cynlluniau priodol. Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn cael gwybodaeth arall, er enghraifft p'un a oes gan gleient anghenion addysgol arbennig, sy'n helpu'r cynghorydd i greu proffil cywir o amgylchiadau cleient.

Mewn ychydig o achosion, nid yw cleientiaid yn ddigon ymwybodol ar ddechrau eu cyfweliad am ystod yr opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt. Yn yr achosion hyn,

mae eu syniadau naill ai'n afrealistig neu wedi'u seilio ar wybodaeth anghywir, neu nid ydynt yn ystyried y cyfleoedd sydd ar gael o fewn y farchnad lafur. Caiff hyn effaith andwyol ar eu gallu i wneud penderfyniad gwybodus am eu llwybr dilyniant gorau.

Mae mwyafrif y bobl ifanc yn cymryd rhan yn dda yn eu sesiynau arweiniad. Yn y sesiynau hyn, maent yn datblygu perthynas weithio ddefnyddiol â'u cynghorydd gyrfaoedd ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau. Er enghraifft, mewn ychydig o sesiynau arweiniad, mae pobl ifanc yn trafod ymddygiadau allweddol fyddai'r rhai pwysicaf i gadw atynt yn ystod y sesiwn, yn eu barn nhw, fel didwylledd a gonestrwydd. Maent yn teimlo bod cynghorwyr gyrfaoedd yn gwrando ar eu syniadau a bod cynghorwyr yn awyddus i'w helpu a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau.

Trwy eu trafodaethau agored â'u cynghorydd, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwella'u hymwybyddiaeth o ystod yr opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt, fel prentisiaethau, aros yn y chweched dosbarth yn eu hysgol bresennol neu fynychu ysgol arall neu goleg addysg bellach. Hefyd, maent yn darganfod ystod a lefelau cyrsiau a allai fod yn addas iddynt eu dilyn er mwyn gwneud cynnydd tuag at eu nod cyffredinol. Yn dilyn sesiwn arweiniad, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn trafod a gwerthuso'n briodol fanteision ac anfanteision yr opsiynau y maent yn eu hystyried. Mewn ychydig o ysgolion, mae pobl ifanc yn dechrau eu cyfweliadau yn anwybodus am lwybrau ôl-16 posibl, yn aml lle mae trefn yr ysgol ar gyfer cyflwyno gyrfaoedd a'r byd gwaith yn wan.

Yn ystod sesiynau arweiniad, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ymateb i gwestiynau'n llawn, ac yn aml yn datblygu gwybodaeth a mewnwelediad dyfnach. Mae bron pob un ohonynt yn gweithio'n effeithiol gyda'r cynghorydd gyrfaoedd i ffurfio cynllun clir o gamau tuag at gyflawni eu nodau. Maent yn gweithio'n dda gyda'u cynghorydd i archwilio adnoddau ar-lein, fel gwefan Gyrfa Cymru, fel man cychwyn ar gyfer darganfod gyrfaoedd posibl ar sail ffafriaethau a chryfderau pwnc. Mae pobl ifanc yn rhoi awgrymiadau i'w cynghorydd, a dyma fydd y sylfaen ar gyfer archwilio gwefannau eraill, fel rhai colegau addysg bellach ac ystod y cyrsiau y maent yn eu cynnig, yn ogystal â safleoedd i ddod o hyd i brentisiaethau.

Mae llawer o bobl ifanc yn creu cynlluniau buddiol sydd â nifer o gamau. Datblygant ddealltwriaeth o sut i gynllunio'n hyblyg er mwyn oedi penderfyniadau beirniadol a allai gyfyngu ar eu hopsiynau. Mae'r bobl ifanc hyn yn dysgu y gallant gadw eu hopsiynau'n agored yn hwy cyn iddynt ymrwymo i lwybr gyrfa penodol. Er enghraifft, mae lleiafrif ohonynt yn penderfynu cyflwyno ceisiadau i fwy nag un opsiwn dilyniant, gan felly oedi'r adeg pan mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau terfynol. Erbyn diwedd eu sesiwn arweiniad, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn fwy ymwybodol o oblygiadau eu dewisiadau o ran y farchnad lafur ac wedi gwella eu dealltwriaeth o sut gallai argaeledd cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal effeithio ar eu penderfyniadau. Er enghraifft, mae ychydig o bobl ifanc yn sylweddoli y gallai fod angen iddynt symud i ffwrdd o'u hardal bresennol er mwyn gallu cael rhai mathau o gyflogaeth neu hyfforddiant. Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn cytuno i gwblhau amcanion eu cynllun gweithredu o fewn y graddfeydd amser y maent yn eu gosod gyda'u cynghorydd. Roeddent yn falch o gael eu herio gan y cynghorwyr i ystyried eu cynlluniau. Roedd y sesiynau'n fuddiol, yn eu barn nhw. Pan fyddant yn cael cynnig, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfweliad dilynol gyda'u cynghorwyr

gyrfaoedd i drafod cynnydd tuag at amcanion ac adolygu eu cynllun. Fodd bynnag, nid yw Gyrfa Cymru yn monitro cyfran y bobl ifanc sy'n gwneud cynnydd tuag at eu hamcanion.

## Sesiynau arweiniad gyrfaoedd mewn unedau cyfeirio disgyblion, darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion arbennig

Mewn UCDau, mae cleientiaid yn gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n gynyddol yn eu sesiwn arweiniad wrth iddi fynd rhagddi, o drafod eu meddyliau gwreiddiol i ddatblygu cynllun gweithredu hylaw. Maent yn dechrau datblygu perthnasoedd ymddiriedus gyda'u cynghorydd, hyd yn oed pan mai hon yw eu sesiwn arweiniad gyntaf. Erbyn diwedd y cyfarfod, mae'r rhan fwyaf o gleientiaid yn ymwybodol o raddfeydd amser a'r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd, p'un a yw'r rhain tuag at brentisiaeth, i ddechrau mewn addysg bellach neu fynd i'r farchnad lafur.

Mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o gleientiaid hefyd yn gwneud cynnydd tebyg yn ystod sesiynau arweiniad i gynnydd eu cyfoedion mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd. Ar ddechrau eu sesiwn arweiniad, mae gan lawer o bobl ifanc amrywiaeth o syniadau ynglŷn â'u gyrfa bosibl. Mae gan ychydig ohonynt syniadau sydd wedi'u seilio ar eu profiad gwaith eu hunain neu aelodau eu teulu. Erbyn diwedd eu sesiynau, mae gan y rhan fwyaf o bobl ifanc ddealltwriaeth gliriach o'u syniadau gyrfa yr hoffent anelu atynt, a'r hyn y dylent ei wneud i weithio tuag at y rhain. Trwy eu trafodaethau, maent yn ennill dealltwriaeth dda o rôl y cynghorydd i'w helpu.

Ar ddechrau sesiynau arweiniad, mae gan y rhan fwyaf o bobl ifanc mewn ysgolion arbennig ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt. Wrth i'w sesiynau arweiniad fynd rhagddynt, maent yn dysgu mwy am opsiynau fel aros yn yr ysgol, mynychu coleg addysg bellach neu goleg arbenigol neu beth mae dysgu yn y gwaith yn ei olygu. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn cwisiau paru swyddi trwy wefan Gyrfa Cymru, ac yn defnyddio'r safle i archwilio opsiynau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae ychydig o bobl ifanc yn gadael eu sesiwn yn ymwybodol o ddiben yr arweiniad gyrfaoedd, ac wedi dechrau meithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda'u cynghorydd, ac mae hyn yn eu helpu i fod yn llai pryderus am eu cynlluniau yn y dyfodol.

Mae'r grŵp targedig ar gyfer cymorth lefel 2 yn cynnwys y bobl ifanc hynny sydd ag ADY, yn bwriadu gadael addysg yn 16 oed, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai nad oes ganddynt nod ffocysedig o ran gyrfa. Mae'n ofynnol i bob un o'r bobl ifanc yn y grŵp targedig lenwi holiadur ar ddiwedd y sesiwn, yn ogystal â'r holiadur electronig y gofynnir i bob cleient ei lenwi. Nid yw hwn yn offeryn gwerthuso cwbl effeithiol gan fod y canlyniadau'n gallu bod yn gamarweiniol. Er enghraifft, pan fydd cleientiaid yn nodi ar ôl y cyfweliad fod ganddynt syniad am yrfa, nid yw hyn yn ystyried p'un a ddatblygwyd y syniad cyn neu yn ystod y sesiwn arweiniad. Yn ychwanegol, pan fydd cleientiaid yn llenwi holiadur ym mhresenoldeb y cyfwelydd, nid yw'r cais uniongyrchol am ymateb yn caniatáu amser i'r person ifanc fyfyrio ar y cynnydd y mae wedi'i wneud yn ystod y sesiwn arweiniad.

# Darpariaeth

## Paratoi ar gyfer sesiynau cyfweliad arweiniad gyrfaoedd

Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr gyrfaoedd yn paratoi'n dda ar gyfer eu sesiynau arweiniad gyda phobl ifanc. Caiff hyn ei helpu gan eu perthnasoedd da gydag ysgolion, y mae ganddynt brotocolau clir gyda nhw ar gyfer rhannu gwybodaeth. O ganlyniad, caiff y cynghorwyr hyn wybodaeth fanwl a chywir am bobl ifanc, fel eu perfformiad yn yr ysgol, graddau disgwyliedig a manylion am eu hanghenion ychwanegol. Mae hyn yn galluogi cynghorwyr i dargedu eu harweiniad yn gywir i anghenion eu cleientiaid ac yn eu helpu i werthuso pa mor realistig yw syniadau eu cleientiaid.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw ysgolion yn rhoi mynediad digonol i'r cynghorydd at ddata am ei gleientiaid. O ganlyniad, mae cynghorwyr yn treulio gormod o amser yn darganfod gwybodaeth gefndir am gleientiaid ar ddechrau cyfweliadau. Mae hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i gynorthwyo'r bobl ifanc i ddatblygu eu cynllunio gyrfa.

Tuag at ddiwedd Blwyddyn 10, mae pobl ifanc yn llenwi holiadur 'Gwirio Gyrfa'. Mae bron pob cynghorydd gyrfaoedd yn dadansoddi'r wybodaeth yn yr holiadur hwn yn briodol. Mae hyn yn eu helpu i flaenoriaethu'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt nodau gyrfa clir neu nad yw eu nodau yn gweddu i'w galluoedd yn ddigon agos. Yn ystod cyfweliadau, mae cynghorwyr gyrfaoedd yn gwirio'n briodol â'r cleient p'un a yw'r wybodaeth yn berthnasol o hyd, ac maent yn defnyddio'r adborth hwn i gynllunio a diwygio eu strategaeth arweiniad yn briodol. Mae pobl ifanc yn galw i gof eu meddyliau ar adeg cwblhau ym Mlwyddyn 10 a, lle bo'n briodol, yn esbonio pam roeddent yn ansicr ynglŷn â'u cynlluniau yn y dyfodol neu pam gallai'r rhain fod wedi newid dros gyfnod. Mewn ysgolion nad ydynt wedi cynorthwyo pobl ifanc yn effeithiol i archwilio eu hopsiynau yn fanwl, er enghraifft trwy raglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith effeithiol, mae gormod o bobl ifanc yn meddu ar ddealltwriaeth wael o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael iddynt. O ganlyniad, rhaid i gynghorwyr dreulio gormod o gyfweliad yn rhoi gwybodaeth i gleientiaid, yn hytrach na'u helpu i werthuso eu hopsiynau.

## Sesiynau cyfweliad arweiniad gyrfaoedd

Bron ym mhob ysgol, mae cynghorwyr yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn cynnal pellter cymdeithasol, yn cadw'r amgylchedd a'u hadnoddau yn hylan ac yn cadw cleientiaid mor ddiogel ag y gallant wrth gyflwyno sesiynau arweiniad o ran cyfyngiadau COVID-19 adeg ein hymweliadau.

Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn esbonio paramedrau cyfrinachedd yn dda, gan wirio dealltwriaeth y cleient yn fedrus. Maent yn esbonio eu rôl a diben y cyfweliad yn glir. Yn gyffredinol, mae cynghorwyr gyrfaoedd yn defnyddio iaith sy'n gweddu'n dda i lefel dealltwriaeth y cleient. Pan fo'n briodol, mae cynghorwyr yn defnyddio dulliau darluniadol buddiol i alluogi cleientiaid i fynegi eu teimladau. Mewn ychydig iawn o

achosion, mae iaith cynghorwyr yn rhy ffurfiol, ac nid yw'n canolbwyntio digon ar y cleient.

Ar ddechrau cyfweliadau, mae bron pob cynghorydd yn helpu cleientiaid i fynegi sut maent yn dymuno elwa ar y sesiwn. Defnyddiant y ddealltwriaeth hon yn briodol i gynllunio trafodaethau a gwirio'n rheolaidd eu bod yn bodloni anghenion cleient.

Yn y rhan fwyaf o gyfweliadau, mae cynghorwyr gyrfaoedd yn defnyddio ystod o dechnegau yn dda i helpu pobl ifanc i 'adrodd eu stori' am eu hamgylchiadau, blaenoriaethau a syniadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn llawn yn eu cyfweliad. Maent yn gwrando'n ofalus, gan ddefnyddio ciwiau geiriol a dieiriau, i asesu anghenion arweiniad cleientiaid.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn defnyddio holi yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o gyfnod datblygiad y cleient. Mae cwestiynau fel 'soniwch wrthyf amdanoch chi'ch hun', 'beth ydych chi'n hoffi gwneud?', neu 'beth sydd bwysicaf i chi pan fyddwch chi'n gweithio gyda rhywun?' yn helpu rhoi rheolaeth a pherchnogaeth i'r cleient dros y sgwrs ac yn galluogi'r cynghorydd i ddysgu gwybodaeth am flaenoriaethau a diddordebau cleient. Mewn ychydig o achosion, mae cynghorwyr yn defnyddio cwestiynau arweiniol, sy'n methu sicrhau bod safbwynt y cleient yn cael ei archwilio'n llawn, er enghraifft, 'onid ydych chi'n meddwl bod yr yrfa hon yn werth ei hystyried?'

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynghorwyr yn archwilio syniadau eu cleientiaid yn gynhwysfawr, gan alluogi pobl ifanc i ddatblygu nodau realistig a deall goblygiadau posibl eu dewisiadau. Maent yn rhoi cyngor clir a phriodol ynghylch pa waith ymchwil pellach y mae angen i bobl ifanc ei wneud. Mae cynghorwyr yn cyfeirio'n rheolaidd at wefan Gyrfa Cymru fel enghraifft o ffynhonnell wybodaeth yr ymddiriedir ynddi, ac yn helpu cleientiaid i archwilio'r wefan, ble mae angen. Mewn tua hanner y sesiynau a arsylwyd, cyfeiriodd cynghorwyr y bobl ifanc at adnoddau perthnasol eraill, er enghraifft o ddosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach lleol, a gwefannau sy'n berthnasol i'r rhai sy'n chwilio am brentisiaeth.

Mae llawer o gynghorwyr yn trafod cynllunio wrth gefn priodol gyda phobl ifanc. Yn y mwyafrif o achosion, mae gan bobl ifanc gynllun wrth gefn yn barod. Yn yr achos hwn, mae cynghorwyr yn dilysu eu cynllun neu'n awgrymu camau ychwanegol y gallai fod angen i'r cleient eu cymryd i wella eu cynllunio, er enghraifft trwy gryfhau eu canlyniadau mewn pwnc TGAU penodol. Pan nad yw pobl ifanc wedi ystyried cynllun wrth gefn, mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn eu hannog i wneud hynny, ac ym mwyafrif yr achosion yn cynnwys hyn yn eu cynllun gweithredu. Mae hyn yn gwella hyblygrwydd cynllunio pobl ifanc.

Mae bron pob un o'r cynghorwyr yn cytuno ar gynllun gweithredu priodol ac yn nodi graddfeydd amser i bobl ifanc gymryd camau. Mae llawer o gynghorwyr yn trefnu cyfweliadau dilynol i adolygu pa mor dda y mae cleient yn rhoi'r camau a gytunwyd yn ystod y cyfweliad ar waith.

Mewn ychydig o achosion, nid yw cynghorwyr yn adnabod bod cleient yn siarad Cymraeg. O ganlyniad, nid ydynt yn annog y cleient i ystyried yr yrfa a gwerth y medr hwn o ran ei gysylltiad â chyflogaeth, nac yn rhoi opsiwn i gynnal y cyfweliad yn

Gymraeg. Nid yw cynghorwyr gyrfaoedd yn glir am sut bydd y cwmni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn ogystal â'u gwaith mewn ysgolion, mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref fel rhan o'u baich achos. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc yn cael eu cymorth i raddau helaeth trwy gysylltu â Gyrfa Cymru, naill ai drwy eu gwefan neu drwy ffonio. Mae deddfwriaeth am ddiogelu data a chyfrinachedd person ifanc yn golygu ei bod yn aml yn anodd nodi'r bobl ifanc hyn.

Mae pob un o'r cynghorwyr gyrfaoedd yn deall protocolau ysgolion ar gyfer diogelu ac yn gallu enwi person diogelu dynodedig eu hysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn ansicr am brotocolau diogelu Gyrfa Cymru ac ni allant enwi unigolyn diogelu dynodedig y cwmni.

### Cynghorwyr gyrfaoedd arbenigol

Mae cynghorwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau fel ysgolion arbennig neu UCDau yn meddu ar ddealltwriaeth gref o rwystrau emosiynol, datblygiad gwybyddol a galluoedd cleientiaid. Maent yn ofalus i addasu iaith a chynnwys y cyngor i adlewyrchu hyn. Maent yn gwneud i gleientiaid deimlo'n gartrefol ac yn ennill eu hyder, gan ganolbwyntio'n aml ar feysydd diddordeb personol y cleient i'w annog. Yn yr achosion hyn, mae cynghorwyr yn cymryd gofal arbennig i deilwra gweithgareddau yn ôl galluoedd cleientiaid, gan roi ystyriaeth effeithiol i'w rhychwant sylw, eu cyflwr emosiynol a rhwystrau posibl eraill rhag eu dealltwriaeth. Mae cynghorwyr sy'n gweithio gyda'r cleientiaid hyn yn realistig ynglŷn â'r hyn y gall cleientiaid ei gyflawni mewn cyfweliadau. O ganlyniad, maent yn aml yn anelu at ddatblygu medrau cynllunio cleient mewn camau bach. Maent yn cynllunio'n hyblyg i fodloni anghenion cleientiaid a theuluoedd, yn aml gan weithio'n agos â rhieni i'w cynorthwyo i ddeall yr opsiynau sy'n agored iddynt.

Mae cynghorwyr arbenigol sy'n gweithio gyda chleientiaid ag anghenion dysgu ychwanegol yn hynod fedrus o ran cynorthwyo eu cleientiaid. Maent yn dechrau ar gyfres strwythuredig o ymyriadau cymorth gyda chleientiaid ym Mlwyddyn 9 ac yn cynorthwyo cleientiaid wrth iddynt symud trwy'r ysgol i ddatblygu eu cynllunio pontio. Mae'r cynghorwyr hyn yn darparu graddau uchel o eiriolaeth ar gyfer eu cleientiaid, yn cynrychioli barn ac anghenion cleientiaid mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid perthnasol, fel darparwyr addysg bellach arbenigol. Defnyddiant eu hasesiadau o anghenion cleientiaid i gwblhau cynlluniau dysgu a medrau manwl, sy'n rhoi cyngor buddiol am anghenion hyfforddi cleient ac yn galluogi cyfle i ddarparwyr deilwra'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol i olrhain cadw a chyrchfannau pellach y grŵp hwn o bobl ifanc, nac i nodi pa mor dda y mae opsiynau dilyniant ôl-16 yn eu galluogi i gael swydd.

Mae cynghorwyr arbenigol wedi creu gwe gyfoethog o gysylltiadau i'w galluogi i ddarparu lefelau uchel o gymorth i gleientiaid ag ADY. Nid yw newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth gyda Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) yn rhoi rôl statudol i'r cynghorwyr hyn mwyach mewn asesu anghenion cleientiaid neu eirioli ar eu rhan. Nid yw cynghorwyr, Gyrfa Cymru a staff

mewn ysgolion arbennig yn glir eto ynglŷn â sut bydd y rôl hon yn addasu i'r newidiadau a amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021) er mwyn sicrhau bod cleientiaid ag ADY yn gallu manteisio ar gyngor ac arweiniad annibynnol. Mae pryderon penodol ynglŷn â sut bydd yr awdurdod lleol yn bodloni'r ddyletswydd arno i ddarparu cyngor ac arweiniad diduedd i ddysgwyr os caiff cynghorwyr gyrfaoedd eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, neu os caiff eu hymglymiad yn y broses ei ostwng islaw lefel bresennol darpariaeth y gwasanaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei disgwyliadau'n glir eto am sut dylai awdurdodau lleol weithio gyda Gyrfa Cymru i gefnogi cynllunio pontio ar gyfer dysgwyr ag ADY.

## Anghenion dysgu ychwanegol

Mae'r holl gynghorwyr gyrfaoedd ADY yn perthyn i dîm lleol y maent yn cyfathrebu â nhw yn rheolaidd. Mae hyn, er enghraifft, wedi eu helpu i amlygu nifer gynyddol y dysgwyr sydd â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth (CSA). Yn ychwanegol, mae rheolwyr tîm yn cynnal arsylwadau blynyddol o sesiynau arweiniad i sicrhau ansawdd cysondeb fel rhan o'r rhaglen datblygiad personol ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys arsylwi cynghorwyr mewn cyfarfod adolygiad blynyddol cleient ble gofynnir i gynghorwyr nodi eu hanghenion dysgu unigol eu hunain. Mae Gyrfa Cymru yn darparu hyfforddiant ar lefel genedlaethol hefyd, ac wedi trefnu sawl gweithdy Cymru gyfan ar ysgrifennu Cynllun Dysgu a Sgiliau da neu geisiadau cyllid am ddarpariaeth ADY arbenigol. Mae arweinwyr yn trafod diweddariadau ar ddiwygio ADY yn rheolaidd, i ddiwygio sesiynau cynllunio busnes.

Mae gan Gyrfa Cymru drefniadau clir ar gyfer pennu lefel a natur y gwasanaeth o fewn y cytundebau partneriaeth hyn gydag UCDau ac ysgolion arbennig. Mae hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr ymateb yn briodol ac yn hyblyg, gan addasu'r cymorth a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei deilwra i anghenion cleientiaid ym mhob ysgol. Yn yr un modd, ceir lefel drylwyr o gyfathrebu rhwng cynghorwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a chynghorwyr sy'n gweithio mewn colegau.

At ei gilydd, mae gan y cwmni drefniadau priodol i gynghorwyr gyrfaoedd drosglwyddo cleientiaid sy'n gadael addysg statudol yn 16 mlwydd oed i aelod o dîm Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn golygu y gall Gyrfa Cymru barhau i gynorthwyo'r bobl ifanc hyn i chwilio am gyfleoedd priodol mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn yr achosion hyn, mae cynghorwyr arbenigol yn gweithio'n dda gyda chleientiaid sydd angen cymorth ychwanegol neu sydd ag ADY, ac yn parhau i weithio gyda'r cleientiaid hyn i symud ymlaen tuag at gyfleoedd eraill. I gleientiaid ag anghenion cymhleth a allai fynychu sefydliadau fel UCDau, gall hyn olygu torri perthynas â'r cynghorwyr gyrfaoedd y maent wedi meithrin ymddiriedaeth â nhw.

## Strategaethau digidol

Mae tîm digidol Gyrfa Cymru wedi datblygu strategaeth dra ystyriol i alluogi'r gwasanaeth i gynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Mae'r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd yn dda â chynllun strategol 'Dyfodol Disglair' (Gyrfa Cymru, 2021a) ac yn ategu'r cyngor a'r arweiniad annibynnol y mae Gyrfa Cymru yn eu darparu ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed. Yn ystod y pandemig,

galluogodd y tîm digidol i Gyrfa Cymru barhau i ddarparu gwasanaeth yn ddigidol i gleientiaid pan nad oedd sesiynau wyneb yn wyneb yn bosibl. Recordiodd cynghorwyr sesiynau ymlaen llaw yn debyg i'r rhai y byddent wedi eu cyflwyno mewn ysgolion, a lanlwytho eu deunydd i blatfformau digidol. Yn aml, mae deunydd digidol yn cynnwys sesiynau byw gyda chyflogwyr sy'n galluogi pobl ifanc i ryngweithio â nhw a gofyn cwestiynau. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, dywedodd Gyrfa Cymru fod gostyngiad yn nifer y defnyddwyr yn mynd at ei wefan, ond roeddent yn ansicr ynglŷn â pha ffactorau allai fod wedi cyfrannu tuag at hyn.

Mae'r tîm digidol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwerthusiad ffurfiol ac anffurfiol o'u gwaith. Defnyddiant y gwerthusiad hwn i gynllunio gwelliannau i'r wefan, er enghraifft trwy ddarparu deallusrwydd daearyddol ar gyfer pobl ifanc, fel y gallant weld, er enghraifft, ble caiff mathau penodol o brentisiaethau eu cynnig ledled Cymru. Er bod arweinwyr a rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ofynion y platfform digidol, ar y cyfan, nid oes strategaeth glir i werthuso pa mor dda y mae gwasanaethau digidol yn gwella cynllunio gyrfa cleientiaid.

## Yr iaith Gymraeg

Nod strategaeth 'Dyfodol Disglair' Gyrfa Cymru (Gyrfa Cymru, 2021a) yw cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy ei gwasanaeth dwyieithog a sicrhau bod pobl ifanc yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd y mae medrau Cymraeg yn eu cynnig i ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawni nodau Cymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw staff ar bob lefel, gan gynnwys uwch arweinwyr, yn glir ynghylch beth mae angen i'r cwmni ei wneud i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged.

Nod y cwmni yw cyflwyno darpariaeth yn y dewis iaith. Mae cynghorwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r arolwg 'Gwirio Gyrfa' ar-lein, i nodi dewis iaith person ifanc cyn ei sesiwn arweiniad i sicrhau bod y dyraniad adnoddau cywir ar waith. Mae'r cwmni'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio'i adnoddau. Er enghraifft, mae 40% o dîm Gyrfa Cymru yng ngogledd Cymru yn ddwyieithog i helpu bodloni'r galw o ran dewis iaith. Mae'r ddarpariaeth hon yn arbennig o gryf ar gyfer pobl ifanc ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae gan staff ddealltwriaeth dda o sut gall y Gymraeg helpu pobl ifanc i wneud cynnydd yn eu dewis gyrfa. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion uwchradd nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg yn nodi pobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg, ac felly nid ydynt yn hyrwyddo gwerth y medr hwn i'w rhagolygon cyflogaeth nac yn cynnig cynnal cyfweliad arweiniad yn Gymraeg.

Caiff cynghorwyr gyrfaoedd gyfle da i fanteisio ar adnoddau dwyieithog, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn arddangos y rhain yn amlwg mewn ystafelloedd y maent yn cynnal sesiynau arweiniad ynddynt mewn ysgolion a lleoliadau. Caiff cynghorwyr gymorth pellach gan wasanaeth cyfieithu'r cwmni. Mae gwefan y cwmni yn gwbl ddwyieithog ac mae ymarferion recriwtio yn ystyried cynllunio olyniant i gwmpasu anghenion iaith.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Rheolaeth weithredol gwaith cynghorwyr

Yn nogfen weledigaeth 'Dyfodol Disglair' Gyrfa Cymru (Gyrfa Cymru, 2021a), un o'u nodau yw 'cefnogi cwsmeriaid y mae angen lefelau uwch o gefnogaeth arnynt i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol.' (Gyrfa Cymru, 2021a, tud.14). Ceir trefniadau priodol i nodi maint carfannau cleientiaid a dyrannu beichiau achosion yn deg ymhlith cynghorwyr gyrfaoedd. Mae rheolwyr llinell yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut mae'r broses hon yn gweithio, ac yn ei rheoli'n dda. Mae rheolwyr yn cynnal trafodaethau cyson gyda staff ac mae'r sesiynau hyn yn helpu sicrhau bod eu cynghorwyr yn deall sut caiff beichiau achosion eu dyrannu. Mae rheolwyr llinell yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynghorwyr i fonitro eu cynnydd â beichiau achosion. Yn ystod y rhan fwyaf o gyfweliadau a arsylwyd, trefnodd y cynghorydd adolygiad dilynol. Er bod hyn o fudd i'r cleient, roedd cynghorwyr yn ansicr ynglŷn â pha mor aml y gallent wneud hyn heb iddo gael effaith andwyol ar eu rhwymedigaethau baich achos.

Mae rheolwyr yn cynnal cyfarfodydd baich achos bob tymor gyda staff ac mae ganddynt systemau addas ar waith i gynorthwyo cynghorwyr y mae angen iddynt ddatblygu eu medrau neu y mae angen iddynt flaenoriaethu eu baich gwaith. Mae'r sgyrsiau a'r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn helpu nodi anghenion hyfforddi, ar lefel unigol neu lefel tîm. Yn ogystal â'u hadolygiadau baich achos rheolaidd, mae rheolwyr yn monitro dogfennau cynghorwyr ac yn trafod ansawdd yr arweiniad y maent yn ei gyflwyno i bobl ifanc. Mae rheolwyr canol yn monitro cywirdeb y data y mae'r cynghorwyr yn eu tîm yn ei lanlwytho i'r system gwybodaeth reoli. Caiff y broses hon, yn ogystal â'r arsylwadau blynyddol o waith cynghorwyr, eu defnyddio'n briodol i nodi anghenion cymorth posibl cynghorwyr. Fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith gwaith cynghorwyr ar gynnydd cynllunio gyrfaoedd cleientiaid.

Mae rheolwyr rhanbarthol yn cyfathrebu'n dda â'u staff. Gwnânt ddefnydd da o dechnoleg i sicrhau bod cyfathrebu wedi cael ei gynnal yn ystod adegau pan nad yw rhyngweithio wyneb yn wyneb yn bosibl, yn enwedig yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â'r pandemig.

Mae rheolwyr tîm yn cydnabod gwerth blaenoriaethu amser cynghorwyr gyrfaoedd i gynorthwyo ysgolion a phartneriaid ehangach i alluogi eu cleientiaid i ennill mewnwelediadau defnyddiol i'r byd gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Gyrfa Cymru yn bartner gwerthfawr mewn cyfarfodydd amlasiantaethol a chyfarfodydd cynllunio lleol, er enghraifft gyda chyflogwyr ac awdurdodau lleol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod yr asiantaethau mwyaf priodol yn cael eu cynnwys mewn ymgysylltu â phobl ifanc y nodwyd mai nhw sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi neu'r rhai swydd fwyaf agored i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Cytundebau partneriaeth

Mae gan bron bob ysgol gytundeb partneriaeth buddiol a chynhwysfawr ar waith gyda Gyrfa Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn ystyried anghenion yr ysgolion ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer yr hyn y bydd yr ysgol a'r cwmni yn ei gyflwyno i gynorthwyo pobl ifanc. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y cynlluniau hyn eu monitro yn rheolaidd ac yn effeithiol.

## Dysgu proffesiynol ar gyfer staff

Ar draws y cwmni, mae pwyslais cynyddol ar annog cynghorwyr gyrfaoedd i fyfyrio ar eu perfformiad a'u harferion eu hunain. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn elwa ar gymorth cymheiriaid trwy gyfarfod yn rheolaidd i drafod testunau allweddol ac archwilio atebion. Mae gan Gyrfa Cymru ymagwedd gefnogol at reoli tanberfformio, ac fe gaiff staff eu hannog i amlygu eu problemau'n gynnar. Mae cymorth priodol ar waith i hyfforddi cynghorwyr, ac fe gânt fynediad priodol at ddeunyddiau dysgu. Pan fydd angen, bydd rheolwyr tîm yn cyfarfod â nhw'n rheolaidd ac yn llunio cynlluniau gweithredu unigol.

Mae staff Gyrfa Cymru yn cyflwyno hyfforddiant defnyddiol mewn medrau gyrfa i athrawon dan hyfforddiant a chyflogwyr. Mae'r gwaith pwysig hwn yn codi proffil gwerth arweiniad ac yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd deallusrwydd cywir am y farchnad lafur i helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus.

Ceir cyfleoedd priodol i gynghorwyr ddatblygu eu medrau eu hunain. Caiff dyraniad o ddiwrnodau ei gynnwys ym model amser gweithio'r cwmni er mwyn iddynt allu manteisio ar hyfforddiant. Ceir cyfleoedd buddiol hefyd i staff sy'n tanberfformio fanteisio ar ddeunyddiau dysgu a chymorth i wella eu perfformiad, y maent yn eu hadolygu gyda'u rheolwyr llinell. Yn anochel, mae effaith y pandemig yn gosod cyfyngiadau ar allu Gyrfa Cymru i gyflwyno dysgu proffesiynol ar draws y cwmni, ac mae'n dibynnu ar ymatebion unigoledig i'r adnoddau sydd ar gael. Felly, mae dysgu proffesiynol yn debygol o fod yn anghyson ar draws y cwmni. Mae arweinwyr yn cydnabod y bydd angen adolygu'r dull hwn wrth i gyfyngiadau gael eu llacio.

## Effaith COVID-19

Yn anochel, cafodd COVID-19 effaith negyddol ar gyflwyno arweiniad gyrfaoedd mewn ysgolion a darparwyr eraill. Yn ystod cyfyngiadau diweddar y pandemig, darparodd Gyrfa Cymru lawer o atebion i alluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyngor ac arweiniad annibynnol, er enghraifft trwy blatfform addysg 'Hwb' Llywodraeth Cymru, gwefan y cwmni ei hun a thrwy ffonio cynghorwyr neu gysylltu â nhw ar-lein. Cysylltodd cynghorwyr gyrfaoedd yn dda â darparwyr i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar dechnoleg i sicrhau y gallent ryngweithio â'r adnoddau hyn. Yn ychwanegol, mae llawer o gynghorwyr gyrfaoedd wedi cael eu hyfforddi i'w galluogi i fabwysiadu modelau gweithio hybrid. O ganlyniad, mae Gyrfa Cymru wedi cynyddu cwmpas ei bresenoldeb digidol. Mae rheolwyr a chynghorwyr wedi nodi gwelliant mewn perthnasoedd gyda rhieni a gofalwyr i gynorthwyo pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn ansicr ynglŷn â'r graddau y cafodd COVID effaith andwyol ar gyflwyno gwasanaethau, a'r graddau y bodlonwyd anghenion arweiniad gyrfaoedd pobl ifanc. Maent yn gwybod faint o

gyfweliadau sydd wedi cael eu cynnal, gan fod hwn yn ddangosydd perfformiad allweddol sy'n cael ei fonitro, ond nid ydynt yn gwybod faint o bobl ifanc sydd wedi cael eu cyfweld neu nad oeddent wedi cael eu cyfweld, oni bai bod gan y bobl ifanc hyn ADY.

## Hunanwerthuso ar gyfer gwella

At ei gilydd, nid yw gwerthusiad y cwmni o'i wasanaethau wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n ddigon mesuradwy na thrylwyr. Mae hyn yn rhwystro cynllunio gwelliant gwasanaethau'r cwmni. Mae arweinwyr yn esbonio pam maent wedi dewis blaenoriaethau gwella ond mae eu hesboniadau yn aml wedi'u seilio ar anecdotau neu maent yn brosiectau peilot heb sefydlu meini prawf clir ar gyfer gwerthuso. Mae hyn yn arwain at wneud penderfyniadau a llunio barnau yn seiliedig ar weithgarwch, yn hytrach nag effaith. Caiff arweinwyr a rheolwyr eu hysbysu'n dda am raddau'r gweithgarwch a gynhelir, ond wrth edrych ar effaith y pandemig ar gyfraddau treiddgarwch, gall y diffyg dadansoddi arwain at fylchau sy'n cael eu cuddio gan gyfraddau gweithgarwch. Hefyd, mae'r ddibyniaeth ar gwestiynau'n seiliedig ar foddhad i gleientiaid yn dangos bod pobl ifanc yn teimlo bod cynghorwyr yn gwneud gwaith da, ond nid yw'n nodi p'un a yw'r gwasanaeth yn cryfhau cynllunio eu cleientiaid. Felly, maent yn colli cyfleoedd yn eu harolygon boddhad i holi p'un a yw eu gwasanaeth wedi galluogi pobl ifanc i wella eu cynllunio gyrfa. O ganlyniad, mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn canolbwyntio gormod ar gwblhau gweithgareddau, ac nid ydynt yn nodi nac yn mesur effaith fwriadedig gwaith y cwmni.

Ceir trefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer cynghorwyr. Mae adroddiadau cryno rheolwyr tîm i uwch reolwyr yn cynorthwyo i nodi perfformiad staff ac mae prosesau cymedroli cenedlaethol a rhanbarthol ar waith. Ar gyfer y cynghorwyr hynny y nodwyd eu bod yn anfoddhaol neu'n annigonol, rhoddir dull hyfforddi a chymorth arall ar waith i wella perfformiad. Nid yw adroddiadau cryno'r cwmni yn dangos unrhyw arfer ragorol. Mewn un adroddiad, barnodd rheolwyr fod tua 70% o gyfweliadau a adroddwyd yn ddigonol ar eu gorau. Nid yw'r rhan fwyaf o reolwyr a staff yn glir ynglŷn â beth yw'r meincnodau neu'r meini prawf ar gyfer arferion da neu ragorol, neu ynglŷn â beth ddylai'r proffil barnau fod ar draws y cwmni. Caiff rheolwyr llinell ledled Cymru gyfle i gyfarfod i drafod hunanwerthusiad y cwmni. Ni all llawer o reolwyr ddisgrifio graddau eu rhan yn y broses hon, ac o ganlyniad, maent yn ansicr ynglŷn â sut maent yn cyfrannu at drefn gyffredinol y cwmni o ran hunanwerthuso neu gynllunio ar gyfer gwella.

Nododd llawer o reolwyr tîm feysydd y dylai'r gwasanaeth wella ynddynt, yn eu barn nhw, gan gynnwys datblygu cyflwyno cyfunol a gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol. Nid yw'n glir beth mae'r cwmni'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella.

Mae staff Gyrfa Cymru yn casglu adborth gan gleientiaid yn rheolaidd. Mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn yn dangos cyfradd boddhad uchel iawn ar draws y grŵp cleientiaid. Mewn tua hanner y cyfweliadau, bu arolygwyr yn arsylwi cynghorwyr yn gofyn cwestiynau gwerthusol i gleientiaid yn syth ar ôl eu cyfweliad arweiniad. Yn yr achosion gorau, mae'r cwestiynau hyn yn mesur p'un a oes gan gleient ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau a

ofynnir wedi eu cynllunio'n dda, ar y cyfan, ac mewn ychydig o achosion, maent yn creu atebion sy'n amhriodol o gadarnhaol. Yn ychwanegol, mae gormod o werthuso'r cwmni o ran ei wasanaethau wedi'i seilio ar fesurau boddhad cleientiaid, yn hytrach na dadansoddiad o ba effaith a gaiff y gwasanaeth ar wella'r ffordd y mae cleient yn cynllunio neu'n gwneud penderfyniadau am yrfa.

Mae staff Gyrfa Cymru yn cofnodi 'cyrchfannau bwriadedig' y bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw trwy sesiynau arweiniad. Yn ddiweddar, lansiodd y cwmni gynllun peilot i wella casglu gwybodaeth. Mae hwn wedi'i seilio ar y cleientiaid hynny sy'n llenwi'r arolwg 'Gwirio Gyrfa' cychwynnol ym Mlwyddyn 10 ac fe gaiff y wybodaeth hon ei chymharu â'u cyrchfan wirioneddol i werthuso p'un a yw'r gyrchfan fwriadedig a'r gyrchfan wirioneddol yn cyfateb. Mae'n rhy gynnar i ddweud sut caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lywio cynllunio neu pa fewnwelediad y bydd yn ei roi i effaith cyngor ac arweiniad.

Mae Gyrfa Cymru yn casglu data ar gyrchfannau pan fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol, ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhanddeiliaid. Mae'r data hwn yn dangos bod nifer uchel o gyrchfannau cadarnhaol yn cael eu cofnodi ar gyfer pobl ifanc, gyda bron pob un ohonynt yn symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Gyrfa Cymru, 2020). Mae nifer y bobl ifanc sydd â chyrchfannau anhysbys yn fach iawn, ac os yw'r rhain yn bodoli, mae Gyrfa Cymru yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gysylltu â phobl ifanc trwy amrywiaeth o ddulliau. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl ifanc hynny yn cael cynnig cymorth teilwredig i fodloni eu hanghenion, ac yn eu helpu i osgoi bod yn bobl ifanc 'nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NACH).

Er bod arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data ar gyrchfannau, nid oes ganddynt darged clir ynghylch pa lefelau o bobl ifanc NACH y mae'r gwasanaeth yn anelu at eu cyflawni. Nid ydynt yn glir ychwaith am sut i sicrhau gostyngiadau pellach yng nghyfran y bobl ifanc NACH.

Yn ogystal â chasglu data ar gyrchfannau ar gyfer pobl ifanc ar ddiwedd addysg orfodol yn 16 mlwydd oed, mae Gyrfa Cymru hefyd yn casglu'r data ar ymadawyr cynnar ar gyfer y rheiny sy'n gadael colegau addysg bellach ac yn mynd ar drywydd yr ymadawyr hynny y cânt wybod amdanynt. Mae'r data hwn yn llai trylwyr ar gyfer dysgwyr sy'n gadael y coleg cyn gorffen eu cwrs, neu'r rhai sydd ar fudd-daliadau a ddim yn chwilio am waith. Felly, mae'n anodd dadansoddi effaith y sesiwn arweiniad a gafodd pobl ifanc pan oeddent yng nghyfnod allweddol 4. Mae niferoedd y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau i fod yn rhy uchel (Llywodraeth Cymru, 2022).

Mae uwch reolwyr yn ymwybodol bod olrhain hydredol o ran cyrchfannau dysgwyr yn anghyson. O ganlyniad, nod y cwmni yw cynnal astudiaeth o'r bobl ifanc a'r effaith a gaiff y sesiwn arweiniad ar eu cyrchfan tymor hwy. Nid yw hyn ar waith ar hyn o bryd, ac mae'n ddiffyg pwysig mewn cynllunio gwelliant.

Mae'r cwmni wedi datblygu cysylltiadau â darparwr gwasanaeth gyrfaoedd arall yn y DU. Nid yw'r cysylltiadau hyn wedi effeithio ar gynllunio gwasanaethau, gwelliant na chyfleoedd dysgu proffesiynol eto.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Ymwelodd arolygwyr ag ystod o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, UCDau a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ledled Cymru, gan arsylwi gwaith cynghorwyr gyrfaoedd gyda phobl ifanc yn y lleoliadau hyn yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021. Canslwyd dau ymweliad oherwydd amrywiolyn datblygol Omicron COVID-19.

Ystyriodd arolygwyr y cyfyngiadau a osodwyd ar Gyrfa Cymru o ganlyniad i'r pandemig a buont yn siarad â chynghorwyr gyrfaoedd am ystod hyblyg y trefniadau roeddent wedi eu gwneud er mwyn cynnal cyswllt â'r bobl ifanc o fewn eu baich achos. Hefyd, gwrandawodd arolygwyr ar gyfweliadau arweiniad wedi'u recordio, a buont yn cynnal trafodaethau â:

- phobl ifanc
- cynghorwyr gyrfaoedd
- staff ysgolion

Ymunodd arolygwyr o Education Scotland ag arolygwyr Estyn mewn cyfarfodydd ar-lein gydag arweinwyr a rheolwyr Gyrfa Cymru. Hefyd, edrychon nhw ar ystod o ddogfennau y gofynnwyd amdanynt gan Gyrfa Cymru, gan gynnwys:

- cynlluniau corfforaethol
- cynlluniau gweithredol
- dogfennau polisi / gweithdrefnau
- cynlluniau datblygu ansawdd
- cofnodion cyfarfodydd
- cofnodion grwpiau ffocws
- adroddiadau gwerthuso
- adroddiadau ar berfformiad
- cytundebau partneriaeth / datganiadau o drefniadau
- cyhoeddiadau'r cwmni

### Ysgolion a lleoliadau yr ymwelwyd â nhw

Darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ACT Caerdydd
Ysgol Gyfun Basaleg, Casnewydd
Ysgol Gyfun Birchgrove, Abertawe
Ysgol Neuadd Brynllywarch, Powys
UCD Ceredigion, Ceredigion
Ysgol Gymunedol Cwmtawe, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Uwchradd Penarlâg, Sir y Fflint
Ysgol Uwchradd Y Ddraenen Wen, Rhondda Cynon Taf
Ysgol y Brenin Harri'r VIII, Sir Fynwy
UCD Y Drenewydd, Powys
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre, Merthyr Tudful
Ysgol Gyfun Radur, Caerdydd
Coleg Y Rhyl (darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol EPIC), Sir Ddinbych

Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban, Torfaen
Ysgol Gyfun Sant Cenydd, Caerffili
UCD Wrecsam, Wrecsam
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd

### Cyfarfodydd gyda darparwyr (y cynhaliwyd rhai ohonynt ar-lein)

UCD Sir Ddinbych, Sir Ddinbych
Canolfan Llwybrau Dysgu, Ysgol Gyfun Heolddu, Caerffili
UCD Sir Benfro, Sir Benfro
Ysgol Tŷ Gwyn (Western Learning Federation), Caerdydd
Ysgol Woodlands (Western Learning Federation), Caerdydd
Darpariaeth Amgen Y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Maes Hyfryd, Sir y Fflint
Ysgol Hen Felin, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe

## Geirfa

**Cleient** Unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gan Gyrfa Cymru. Yn yr adroddiad hwn, person ifanc 14-16 oed

### Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents [Darllenwyd 29 Mawrth 2022]

Gyrfa Cymru (2020) *Hynt disgyblion 2020* [Ar-lein]. Ar gael o https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/hynt-disgyblion/hynt-disgyblion-2020 [Darllenwyd 9 Chwefror 2022]

Gyrfa Cymru (2021a). *Dyfodol disglair. Ein gweledigaeth 2021-26.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/Dyfodol-Disglair-Ein-gweledigaeth-21-26.pdf [Darllenwyd 18 Chwefror 2022]

Gyrfa Cymru (2021b) *Cynllun Gweithredol 2021-22* [Ar-lein]. Ar gael o: https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/Cynllun-Gweithredol-2021-2022_0.pdf [Darllenwyd 18 Chwefror 2022]

*Deddf Addysgu ac Addysg Uwch (1998).* Rhan IV Amrywiol a chyffredinol. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/30/contents [Darllenwyd 9 Chwefror 2022]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/0f62c909-c4ba-4027-af42-517d3ca4157c/gyrfaoedd-ar-byd-gwaith-fframwaith-i-bobl-ifanc-11-i-19-oed-yng-nghymru.pdf. [Darllenwyd 17 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2021) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael o: https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig [Darllenwyd 17 Rhagfyr 2021]

Llywodraeth Cymru (2022) *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH): Hydref 2020 i Fedi 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-hydref-2020-i-fedi-2021 [Darllenwyd 28 Mawrth 2022]